



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif: 49060

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Treth Gyngor Decach – Cam 2

15 Mai 2024

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

Trosolwg

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru Ymgynghoriad Cam 2 yn gofyn am sylwadau pellach ar system treth gyngor decach yng Nghymru. Roedd hyn yn dilyn [ymgynghoriad Cam 1](#) a gynhaliwyd yn 2022.

Camau i'w Cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill.

Manylion cyswllt

Am ragor o wybodaeth:

Polisi a Diwygio'r Dreth Gyngor
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: CTaNDR.Ymgynghoriadau@llyw.cymru

Copïau ychwanegol

Ar ffurf electronig yn unig y caiff y crynodeb hwn o ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennaeth ymgynghori eu cyhoeddi, a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae'r ddogfen ymgynghori ar gael [yma](#).

Cynnwys

Cynnwys.....	4
Cyflwyniad.....	5
Cwestiwn 1: Band y Dreth Gyngor	7
Cwestiwn 2: Ardal Cyngor	9
Cwestiwn 3: Dull Diwygio	11
Cwestiwn 4: Yr Amserlen ar gyfer Diwygio.....	13
Cwestiwn 5: Terfyn amser ar gyfer Eithriad F	15
Cwestiwn 6: Profiant / Llythyrau Gweinyddu	15
Cwestiwn 7: Newid y Teitl 'Amhariad Meddyliol Difrifol'	17
Cwestiwn 8: Diffiniad	17
Cwestiwn 9: Meini Prawf Cymhwyso.....	18
Cwestiynau 10 ac 11: Y Gymraeg	20
Cwestiwn 12: Unrhyw Sylwadau Pellach.....	22
Ymateb y Llywodraeth.....	24
Atodiad A – Rhestr o'r Ymatebwyr i'r Ymgynghoriad.....	25

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad Treth Gyngor Decach: cam 2 a gynhaliwyd rhwng 14 Tachwedd 2023 a 6 Chwefror 2024.

Ymdriniodd yr ymgynghoriad â phedwar prif bwnc, sef: gwahanol ddulliau ar gyfer cynllunio bandiau treth gyngor newydd; diweddariadau rheolaidd i'r dreth gyngor yn y dyfodol; disgowntiau ac eithriadau; system fwy tryloyw a phroses apeliadau fwy effeithiol.

Yr Ymgynghoriad

Gofynnwyd am sylwadau fel rhan o ymgynghoriad 12 wythnos o hyd a ddechreuodd ar 14 Tachwedd 2023 ac a ddaeth i ben ar 6 Chwefror 2024. Cyhoeddwyd y [ddogfen ymgynghori](#), [fersiwn hawdd ei deall](#) a [fersiwn Iaith Arwyddion Prydain](#) ar [dudalennau ymgynghoriadau](#) gwefan Llywodraeth Cymru. Gallai'r ymatebwyr gyflwyno eu safbwyntiau a'u sylwadau ar-lein, drwy e-bost neu drwy'r post, ac yn Gymraeg neu'n Saesneg. E-bostiwyd y ddolen i'r ymgynghoriad at amrywiaeth eang o randdeiliaid gan gynnwys awdurdodau lleol, sefydliadau cynrychioliadol a chyrff proffesiynol ar gyfer y sectorau perthnasol.

Cafwyd **1,676 o ymatebion** i'r ymgynghoriad, a oedd yn adlewyrchu sbectwm eang o fuddiannau a safbwyntiau. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys dau gwestiwn am fanylion preswyl yr ymatebydd (band treth gyngor ei eiddo, ac yn ardal pa gyngor roedd yn byw), dau gwestiwn am y dulliau posibl o roi system treth gyngor decach ar waith, a phum cwestiwn am ddisgowntiau ac eithriadau, ynghyd â thri chwestiwn mwy cyffredinol.

Nod y ddogfen hon yw cyflwyno'r farn a'r themâu cyffredinol a ddarparwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad, yn hytrach na chrynhai pob ymateb unigol.

Dim ond i Gymru roedd yr ymgynghoriad yn berthnasol.

Pwy a ymatebodd i'r ymgynghoriad?

Cafwyd cyfanswm o **1,676 o ymatebion** i'r ymgynghoriad. Mae'r holl ymatebion wedi cael eu hystyried a'u dadansoddi. Roedd yr ymatebwyr yn cynrychioli amrywiaeth o grwpiau buddiant, fel a ganlyn:

Categori'r ymatebydd	Nifer yr ymatebwyr
Aelodau o'r cyhoedd	1,633
Prif awdurdod lleol	22
Cyrff cynrychioliadol	18
Arbenigwyr proffesiynol / academaidd	3

Lle na nododd yr ymatebwyr yn benodol a oedd eu hymateb yn ymateb swyddogol gan sefydliad, tybir eu bod wedi ymateb fel unigolion ac maent wedi'u dosbarthu'n aelodau o'r cyhoedd.

Ceir rhestr o'r ymatebwyr, heblaw am y rhai a oedd am aros yn ddiennw, yn Atodiad A. Lle y gofynnodd ymatebwyr inni beidio â chyhoeddi eu manylion, maent yn ymddangos fel 'Dienw' er mwyn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

Cwestiwn 1: Band y Dreth Gyngor


Ym mha fand treth gyngor rydych chi ar hyn o bryd? Dewiswch opsiwn, mae'n bosibl y byddwch am edrych ar eich bil Treth Gyngor diweddaraf neu [gallwch gadarnhau eich band Treth Gyngor drwy chwilio yn ôl eich cyfeiriad neu'ch cod post.](#)

Band A	57 o ymatebwyr / 3%
Band B	132 o ymatebwyr / 8%
Band C	199 o ymatebwyr / 12%
Band D	301 o ymatebwyr / 18%
Band E	340 o ymatebwyr / 21%
Band F	308 o ymatebwyr / 19%
Band G	160 o ymatebwyr / 10%
Band H	60 o ymatebwyr / 4%
Band I	28 o ymatebwyr / 2%
Ddim yn talu'r dreth gyngor	8 ymatebydd / 0%
Ddim yn gymwys	38 o ymatebwyr / 2%
	Cyfanswm: 1,631 o ymatebwyr

Ni wnaeth 45 o ymatebwyr ateb y cwestiwn hwn.

Mae Ffigur 1 yn cymharu dosbarthiad bandiau'r dreth gyngor o'r ymatebion i'r ymgynghoriad â'r dosbarthiad gwirioneddol yn ôl bandiau'r 1.5 miliwn o eiddo treth gyngor yng Nghymru. Fel y gwelir yn Ffigur 1, nododd y mwyafrif o ymatebwyr fod eu heiddo naill ai ym Mand D (18%), Band E (21%), neu Fand F (19%). Fodd bynnag, mae dosbarthiad gwirioneddol eiddo treth gyngor yng Nghymru yn dangos bod y nifer mwyaf o eiddo ym Mand C (22%) a Band B (21%).

Ffigur 1: Dosbarthiad ymatebion yr ymgynghoriad yn ôl band treth gyngor, o gymharu â dosbarthiad eiddo treth gyngor yng Nghymru



Cwestiwn 2: Ardal Cyngor

Yn ardal pa gyngor ydych chi'n byw?


Ynys Môn	39 o ymatebwyr / 2%
Cyngor Gwynedd	56 o ymatebwyr / 3%
Conwy	56 o ymatebwyr / 3%
Sir Ddinbych	44 o ymatebwyr / 3%
Sir y Fflint	75 o ymatebwyr / 5%
Wrecsam	75 o ymatebwyr / 5%
Powys	114 o ymatebwyr / 7%
Ceredigion	30 o ymatebwyr / 2%
Sir Benfro	56 o ymatebwyr / 3%
Sir Gaerfyrddin	96 o ymatebwyr / 6%
Abertawe	61 o ymatebwyr / 4%
Castell-nedd Port Talbot	59 o ymatebwyr / 4%
Pen-y-bont ar Ogwr	62 o ymatebwyr / 4%
Bro Morgannwg	110 o ymatebwyr / 7%
Rhondda Cynon Taf	87 o ymatebwyr / 5%
Merthyr Tudful	25 o ymatebwyr / 1%
Caerffili	47 o ymatebwyr / 3%
Blaenau Gwent	32 o ymatebwyr / 2%
Torfaen	77 o ymatebwyr / 5%
Sir Fynwy	164 o ymatebwyr / 10%
Casnewydd	67 o ymatebwyr / 4%
Caerdydd	191 o ymatebwyr / 12%
Ddim yn gymwys	22 o ymatebwyr / 0%
	Cyfanswm: 1,645 o ymatebwyr

Ni wnaeth 31 o ymatebwyr ateb y cwestiwn hwn.

Mae Ffigur 2 yn cymharu dosbarthiad eiddo yn ôl ardal treth gyngor o'r ymatebion i'r ymgynghoriad â'r dosbarthiad gwirioneddol yn ôl ardal cyngor yr 1.5 miliwn o eiddo

treth gyngor yng Nghymru. Fel y gwelir yn Ffigur 2, roedd canran yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad o Sir Fynwy (10%), Powys (7%) a Bro Morgannwg (7%) yn uwch na chanran talwyr y dreth gyngor yng Nghymru sy'n byw yn Sir Fynwy (3%), Powys (4%) a Bro Morgannwg (4%). Dim ond 5% o'r ymatebwyr a nododd eu bod o Rionda Cynon Taf a 4% o Abertawe, er bod canran gwirioneddol talwyr y dreth gyngor sy'n byw yn yr ardaloedd unigol hyn yn cyfateb i 8% o'r cyfanswm yng Nghymru.

Ffigur 2: Dosbarthiad ymatebion yr ymgynghoriad yn ôl ardal cyngor, o gymharu â dosbarthiad eiddo treth gyngor yng Nghymru



Cwestiwn 3: Dull Diwygio

Mae Llywodraeth Cymru wedi dangos 3 dull posibl o lunio system Treth Gyngor decach. Rydym am ofyn i chi am eich awydd i ddiwygio.

Ydych chi'n meddwl y dylem anelu at:

Dull 1: diwygio ar raddfa fach	523 o ymatebwyr / 32%
Dull 2: diwygio cymedrol	197 o ymatebwyr / 12%
Dull 3: diwygio ehangach	383 o ymatebwyr / 23%
Arall (nodwch)	533 o ymatebwyr / 33%
	Cyfanswm: 1,636

Ni wnaeth 40 o ymatebwyr ateb y cwestiwn hwn.

Cafwyd 841 o ymatebion ysgrifenedig (51% o'r cyfanswm).

Yng Nghwestiwn 3, cynigiwyd 3 dull posibl o lunio system treth gyngor decach i'r rhai a oedd yn ymateb i'r ymgynghoriad. Cynhwyswyd opsiwn i gynnig barn amgen hefyd, a ddisgrifiwyd fel "Arall". Roedd cyfle i bob ymatebydd gyflwyno sylwadau manwl ni waeth pa opsiwn a ddewiswyd.

Roedd ychydig o dan draean (32%) o'r ymatebwyr o blaid y dull diwygio ar raddfa fach. Roedd ymatebwyr a oedd o blaid **diwygio ar raddfa fach** yn cydnabod yn gyffredinol y byddai'n fuddiol diweddarau gwerthoedd eiddo o dan y system treth gyngor bresennol, gan fod y gwerthoedd ar hyn o bryd yn seiliedig ar amodau'r farchnad dai yn 2003, ond roeddent yn amau a oedd angen ailbrisiad arall yn enwedig yn ystod argyfwng costau byw.

Roedd pedwar awdurdod lleol o blaid diwygio ar raddfa fach. Nododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) fod parhau i ddefnyddio hen werthoedd eiddo yn tanseilio hygredd y system a bod cywirdeb bandiau eiddo yn sicrhau bod cynghorau yn casglu'r symiau treth cywir. Adleisiwyd hyn gan randdeiliaid eraill gan gynnwys Cyngor ar Bopeth Cymru a ddywedodd fel cam sylfaenol y dylid ailbrisio eiddo yng Nghymru yn 2025 er mwyn sicrhau bod cyfraddau'r dreth gyngor yn seiliedig ar werthoedd eiddo cyfredol, gan wella hygredd a thegwch bandiau'r dreth gyngor.

Roedd yn well gan ychydig dros un rhan o ddeg (12%) o'r ymatebwyr y dull **diwygio cymedrol**. Nododd yr ymatebwyr hyn fod y dull hwn yn decach na'r dull diwygio ar raddfa fach, ac y byddai'n cael llai o effaith ar eiddo yn y bandiau uwch na'r dull diwygio ehangach. Roedd tri awdurdod lleol o blaid diwygio cymedrol.

Roedd bron i chwarter (23%) yr ymatebwyr o blaid dull **diwygio ehangach**. Roedd yr ymatebwyr hyn o'r farn mai hwn oedd yr opsiwn tecaf ar gyfer system treth gyngor yn y dyfodol, gydag un ymatebydd yn nodi mai'r opsiwn hwn oedd yn cymryd y cam mwyaf tuag at greu system decach. Roedd 13 o awdurdodau lleol yn cefnogi'r dull ehangach.

Roedd CLILC o'r farn bod yr opsiynau 'cymedrol' ac 'ehangach' yn cynnwys gwaith ychwanegol sylweddol i'r timau refeniw mewn awdurdodau lleol sy'n mynd y tu hwnt i ymarfer ailbriso, a bod angen hefyd i dalwyr y dreth gyngor ddeall y newidiadau a bod yn gwbl barod ar eu cyfer, y tu hwnt i ailbrisiad syml.

Mynegodd UNSAIN Cymru fod angen newid, gan nodi bod dyletswydd foesol ar Lywodraeth Cymru i wneud popeth o fewn ei gallu i godi pobl allan o dlodi, ac i sicrhau bod dinasyddion mwy cyfoethog yn cyfrannu cyfran deg er mwyn ariannu gwasanaethau cyhoeddus sydd o fudd i'r gymuned gyfan.

Nododd 213 o ymatebwyr (13% o gyfanswm yr ymatebwyr) i'r cwestiwn hwn na ddylid gwneud unrhyw ddiwygiadau i'r dreth gyngor.

Awgrymodd 241 o ymatebwyr fath amgen o drethiant lleol gan gynnwys y canlynol:

- treth incwm leol, neu dreth leol yn seiliedig ar 'y gallu i dalu'
- treth yn seiliedig ar nifer deiliaid eiddo
- treth yn seiliedig ar y defnydd o wasanaethau lleol
- tâl ar gyfradd safonol i bob aelwyd
- awgrymodd un ymatebydd dreth gwerth tir fel dewis amgen.

Roedd yr awgrymiadau amgen hyn yn themâu cyson a gafodd Llywodraeth Cymru mewn ymateb i'r ymgynghoriad Cam 1 ar dreth gyngor decach.

Cynigiodd y Sefydliad Ardrethu a Phrisio Refeniw (IRRV) ddull amgen, gan nodi y gallai system bandiau barhau ar gyfer eiddo hyd at werth eiddo penodol ac y gellid trethu unrhyw eiddo a oedd yn werth mwy na'r gwerth hwn yn unol â chanran o'u prisiad ar y farchnad a thrwy hynny greu treth fwy graddoledig.

Roedd y sylwadau cyffredinol eraill a gyflwynwyd gan ymatebwyr yn cynnwys y canlynol:

- byddai'r diwygiadau yn cael effaith negyddol ar y rhai hynny y mae ganddynt lawer o asedau ond nad oes ganddynt lawer o arian parod, yn enwedig pobl hŷn neu aelwydydd ag unigolion sydd wedi ymddeol
- mae angen mwy o eglurder ynghylch y cynigion ar gyfer diwygio
- dylid treialu'r dulliau diwygio mewn nifer o ardaloedd awdurdodau lleol cyn eu rhoi ar waith.

Cwestiwn 4: Yr Amserlen ar gyfer Diwygio

Mae Llywodraeth Cymru wedi disgrifio pryd y gellid gwneud y newidiadau i fandiau Treth Gyngor a chyfraddau Treth Gyngor. Unwaith eto, rydym am ofyn am eich awydd i ddiwygio.

Ydych chi'n credu y dylem wneud newidiadau yn unol â:

Yr amserlen gyflymaf: diwygio ar raddfa fach, gymedrol neu ehangach erbyn 1 Ebrill 2025	386 o ymatebwyr / 24%
Diwygio fesul cam: diwygio ar raddfa fach neu gymedrol yn 2025, gan symud at ddiwygio ehangach yn ystod tymor y Senedd nesaf	274 o ymatebwyr / 17%
Diwygio arafach: diwygio ar raddfa fach, gymedrol neu ehangach, gan ddechrau yn 2028	569 o ymatebwyr / 35%
Arall (nodwch)	400 o ymatebwyr / 25%
	Cyfanswm: 1,629

Ni wnaeth 47 o ymatebwyr ateb y cwestiwn hwn.

Cafwyd **615** o ymatebion ysgrifenedig (38% o'r cyfanswm).

Yng ngwestiwn 4, gofynnwyd i ymatebwyr i'r ymgynghoriad nodi pa amserlen fyddai'n well ganddynt ar gyfer rhoi system treth gyngor decach ar waith. Cynigiwyd tri amserlen bosibl iddynt ddewis o'u plith, yn ogystal ag opsiwn arall i gyflwyno barn amgen, a ddisgrifiwyd fel "Arall". Roedd cyfle i bob ymatebydd gyflwyno sylwadau manwl ni waeth pa opsiwn a ddewiswyd.

Roedd yn well gan ychydig dros draean o'r ymatebwyr (35%) amserlen ddiwygio arafach, yn dechrau o 2028. Roedd yn well gan bron i chwarter yr ymatebwyr (24%) yr amserlen ddiwygio gyflymaf (ym mis Ebrill 2025), ac roedd yn well gan 17% o'r ymatebwyr yr amserlen ddiwygio fesul cam (yn dechrau yn 2025 gan wneud newidiadau pellach yn ystod tymor y Senedd nesaf). Dewisodd y chwarter a oedd yn weddill o'r ymatebwyr (25%) yr opsiwn "Arall". O blith y 22 o ymatebion gan awdurdodau lleol, roedd yn well gan naw ddiwygio arafach, tri'r amserlen gyflymaf ac wyth ddiwygio fesul cam. Dewisodd un awdurdod lleol yr opsiwn "Arall" ac ni atebodd un arall y cwestiwn hwn.

O'r 615 o ymatebion ysgrifenedig a gafwyd, nodwyd nifer o themâu fel a ganlyn. Roedd 100 o ymatebion (16%) yn cynnig awgrymiadau eraill ynghylch yr amserlenni arfaethedig ar gyfer diwygio, megis:

- awgrymiadau y dylid rhoi'r diwygiadau ar waith cyn gynted â phosibl, gan gyfeirio at yr effaith gadarnhaol y byddai hyn yn ei chael ar aelwydydd yn ystod yr argyfwng costau byw
- dylid cyflwyno unrhyw newidiadau yn raddol er mwyn galluogi pobl i addasu i effaith y diwygiadau
- dim ond lle caiff y diwygiadau eu hystyried yn llawn ni waeth pa amserlen a ddilynir y dylid eu rhoi ar waith
- awgrymiadau y dylid gohirio'r diwygiadau, gan gyfeirio at amserlenni sy'n wahanol i'r dulliau a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad.

Adleisiwyd rhai o'r safbwyntiau hyn gan randdeiliaid, gyda'r Sefydliad Ardrethu a Phrisio Refeniw yn awgrymu y dylid gwneud y newidiadau cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl a'i bod hi'n hen bryd diwygio'r dreth gyngor, felly bod yn rhaid rhoi unrhyw newidiadau ar waith yn gyflym er mwyn ymdrin â'r anhegwch presennol yn y system.

Ychwanegodd Cyngor ar Bopeth Cymru y dylid dechrau rhoi'r diwygiadau ar waith cyn gynted â phosibl, gan awgrymu hefyd y dylid dechrau'r broses ddiwygio drwy roi'r broses ailbrisiu symlach ar waith yn 2025 ac wedyn symud ymlaen at rai o'r newidiadau mwy cymhleth yn 2028. Nododd hefyd, ochr yn ochr â'r dull fesul cam, fod angen ymgymryd â gwaith i gynnig diogelwch trosiannol cadarn er mwyn helpu'r rhai hynny a fydd yn wynebu biliau uwch.

Roedd ymatebion eraill yn beirniadu'r dulliau a gynigiwyd, er enghraifft:

- nododd 209 o ymatebwyr (34%) nad oeddent am weld unrhyw newid i'r system treth gyngor bresennol
- roedd 52 o ymatebwyr (8%) o'r farn nad dyma'r adeg i roi diwygiadau ar waith i'r dreth gyngor oherwydd yr argyfwng costau byw.

Roedd y themâu cyffredinol eraill yn cynnwys y canlynol:

- awgrymiadau ar gyfer math amgen o drethiant lleol, gyda'r tri math a nodwyd amlaf yn cynnwys trethi yn seiliedig ar incwm, nifer y deiliaid, neu dreth cyfradd safonol i bob aelwyd
- byddai'r diwygiadau a awgrymwyd yn cael effaith negyddol ar y rhai hynny y mae ganddynt lawer o asedau ond nad oes ganddynt lawer o arian parod, yn enwedig yr henoed neu aelwydydd ag unigolion sydd wedi ymddeol
- pryderon ynghylch cost y dreth gyngor yn gyffredinol.

Cwestiwn 5: Terfyn amser ar gyfer Eithriad F

Ydych chi'n cytuno y dylai fod terfyn amser cyffredinol ar Eithriad F i annog y rhai sy'n gyfrifol i beidio â gadael eiddo yn wag ac wedi'i eithrio rhag y Dreth Gyngor am gyfnod amhenodol?

Rhoddir eithriad Dosbarth F ar hyn o bryd ar gyfer eiddo nad yw wedi cael ei feddiannu ers marwolaeth ei gyn-breswlydd os mai'r unig berson sy'n atebol am dalu'r dreth gyngor fyddai cynrychiolydd personol yr ymadawedig, ac nad oes unrhyw brofiant na llythyrau gweinyddu wedi'u rhoi.

Ydw	1,059 o ymatebwyr / 65%
Nac ydw	560 o ymatebwyr / 35%
	Cyfanswm: 1,619 o ymatebwyr

Ni wnaeth 57 o ymatebwyr ateb y cwestiwn hwn.

Cwestiwn 6: Profiant / Llythyrau Gweinyddu

Beth sy'n gyfnod rhesymol i gael profiant neu lythyrau gweinyddu yn eich barn chi?

2 flynedd	747 o ymatebwyr / 46%
3 blynedd	306 o ymatebwyr / 19%
4 blynedd	210 o ymatebwyr / 13%
Arall (nodwch)	355 o ymatebwyr / 22%
	Cyfanswm: 1,618 o ymatebwyr

Ni wnaeth 58 o ymatebwyr ateb y cwestiwn hwn.

Cafwyd 467 o ymatebion ysgrifenedig (29% o'r cyfanswm).

Roedd 303 o'r ymatebion ysgrifenedig yn cynnig awgrymiadau ar gyfer opsiynau ac amserlenni amgen. Roedd 123 ohonynt (41%) yn awgrymu na ddylid gwneud unrhyw newidiadau i'r sefyllfa bresennol y dylai'r eiddo gael ei eithrio rhag y dreth

gyngor os bydd yn parhau'n wag ar ôl marwolaeth y deiliad, ac y dylai'r eithriad barhau cyhyd â'r broses, gan nodi y gall fod anawsterau ac achosion o oedi wrth wneud cais am brofiant. Awgrymodd 132 arall (44%) gyfnodau o rhwng 6 mis a 18 mis. Cynigiodd nifer bach o ymatebion y dylai awdurdodau lleol allu defnyddio disgresiwn ar ôl 2 flynedd o dan amgylchiadau eithriadol, megis lle y bu'n anodd dod o hyd i'r ysgutor neu gynrychiolydd personol yr ymadawedig neu lle bo'r math o eiddo yn cymryd mwy o amser i'w brosesu.

Awgrymodd 22 arall (7%) y dylai'r terfyn amser ar eithriad rhag y dreth gyngor fod am gyfnod o 5 mlynedd neu fwy. I'r gwrthwyneb, awgrymodd nifer bach o ymatebion (4%) y dylid gorfod parhau i dalu'r dreth gyngor ar ôl marwolaeth y deiliad er mwyn rhoi cymhelliant i werthu neu osod yr eiddo.

Cwestiwn 7: Newid y Teitl 'Amhariad Meddyliol Difrifol'

Pa deitl y dylid ei ddefnyddio yn lle 'amhariad meddyliol difrifol' yn eich barn chi?

Opsiwn A: amhariad ymenyddol arwyddocaol	791 o ymatebwyr / 53%
Opsiwn B: cyflwr ymenyddol arwyddocaol	695 o ymatebwyr / 47%
	Cyfanswm: 1,486 o ymatebwyr

Ni wnaeth 189 o ymatebwyr ateb y cwestiwn hwn.

Cwestiwn 8: Diffiniad

Ydych chi'n cytuno â'r diffiniad a gynigir i ddisgrifio person sydd ag amhariad neu gyflwr ymenyddol arwyddocaol?

Y diffiniad yw: "Cyflwr neu newid meddyliol arwyddocaol (a pharhaol) sy'n effeithio ar allu'r ymennydd i weithredu."

Ydw	1,125 o ymatebwyr / 72%
Nac ydw	186 o ymatebwyr / 12%
Unrhyw safbwyntiau eraill (nodwch)	251 o ymatebwyr / 16%
	Cyfanswm: 1,562 o ymatebwyr

Ni wnaeth 114 o ymatebwyr ateb y cwestiwn hwn.

Cafwyd 339 o ymatebion ysgrifenedig (22% o'r cyfanswm).

Nid atebodd 149 o ymatebwyr y cwestiwn neu gwnaethant gyflwyno sylwadau ehangach a oedd y tu hwnt i gwmpas y cwestiwn. Roedd 52 o ymatebwyr (15%) o'r farn na ddylid newid y diffiniad a'r teitl presennol. Gwnaeth cyfanswm o 81 o ymatebion awgrymiadau amgen ar gyfer teitl newydd, gan gynnwys 34 o ymatebwyr (10%) a oedd o'r farn bod 'amhariad gwybyddol' yn derm mwy addas i ddisgrifio'r

cyflwr. Nid oedd 24 ymatebydd arall (7%) yn cytuno â'r term 'parhaol' gan nodi y dylai'r eithriad hefyd fod yn berthnasol i gyflyrau dros dro. Pwysleisiodd safbwyntiau eraill bwysigrwydd llunio rhestr glir o gyflyrau a meini prawf er mwyn sicrhau mai dim ond i'r unigolion bwriadedig y byddai'r eithriad yn cael ei gynnig.

Cwestiwn 9: Meini Prawf Cymhwyso

Oes gennych chi unrhyw farn ar y meini prawf i berson sydd ag amhariad neu gyflwr ymenyddol arwyddocaol fod yn gymwys i gael ei eithrio neu ei ddiystyru?

Mae'r meini prawf cymhwyso presennol yn nodi y dylai fod gan berson yr hawl i fudd-dâl perthnasol ac y dylai fod wedi cael ardystiad meddygol gan ymarferydd cofrestredig.

Opsiwn A: dileu'r gofyniad i berson fod â hawl i fudd-dal cymhwyso er mwyn bod yn gymwys i gael eithriad neu i gael ei ddiystyru ond cadw'r angen am ardystiad meddygol	546 o ymatebwyr / 36%
Opsiwn B: pan fydd person yn gallu rhoi prawf o ddiagnosis clinigol, gallai'r gofyniad bod person yn cael budd-dal perthnasol gael ei ddileu yn ôl disgrisiwn y cyngor	653 o ymatebwyr / 43%
Arall (nodwch)	308 o ymatebwyr / 20%
	Cyfanswm: 1,507 o ymatebwyr

Ni wnaeth 169 o ymatebwyr ateb y cwestiwn hwn.

Cafwyd 357 o ymatebion ysgrifenedig (23% o'r cyfanswm).

Roedd 130 o ymatebion naill ai'n amherthnasol i'r cwestiwn neu nododd yr ymatebwyr nad oeddent yn teimlo eu bod yn gwybod digon am y pwnc hwn i ateb y cwestiwn.

Nid oedd 95 o ymatebwyr (27%) yn cefnogi unrhyw newidiadau i'r meini prawf presennol. Roedd hyn yn cynnwys 11 o awdurdodau lleol, yr IRRV a CLILC. Roedd 11 o awdurdodau lleol hefyd o blaid cadw'r angen i berson fod â hawl i fudd-daliadau er mwyn helpu i ddilysu ceisiadau a'u rhoi ar y llwybr carlam, ac er mwyn ei gwneud

hi'n haws cyfeirio ymgeiswyr at yr amrywiaeth eang o fudd-daliadau a all fod ar gael iddynt.

Awgrymodd 36 o ymatebwyr (10%) y gallai'r eithriad fod yn agored i geisiadau twyllodrus a bod angen meini prawf cadarn er mwyn cadarnhau hawliau unigolion. Awgrymodd nifer bach o ymatebwyr (3%) y dylai'r eithriad fod yn seiliedig ar brawf modd. Gofynnodd rhai ymatebwyr (7%) a oedd angen yr eithriad os oedd yr unigolion y byddai'n berthnasol iddynt yn hawlio budd-daliadau.

Cwestiynau 10 ac 11: Y Gymraeg

Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynigion hyn yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol o ran cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau positif, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

Ni wnaeth 644 o ymatebwyr ateb y cwestiwn hwn.

Cafwyd 1,031 o ymatebion ysgrifenedig (62% o'r cyfanswm).

Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gellid ffurfio neu addasu'r cynnig polisi er mwyn cael effeithiau positif neu effeithiau mwy positif ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ni wnaeth 874 o ymatebwyr ateb y cwestiwn hwn.

Cafwyd 801 o ymatebion ysgrifenedig (48% o'r cyfanswm).

Nid oedd bron i hanner yr ymatebion i Gwestiwn 10 (44%) a thri chwarter yr ymatebion i Gwestiwn 11 (70%) yn ymwneud â'r cwestiwn neu roeddent yn cyflwyno sylwadau ar ystyriaethau polisi ehangach o ran y Gymraeg a oedd y tu hwnt i gwmpas diwygiadau i'r dreth gyngor a'r ymgynghoriad hwn.

O'r ymatebion i'r ddau gwestiwn a oedd yn berthnasol i'r ymgynghoriad, daeth y themâu canlynol i'r amlwg.

Nododd tua thraean yr ymatebwyr (34%) na fyddai'r diwygiadau arfaethedig i'r dreth gyngor yn cael llawer o effaith, os o gwbl, ar y Gymraeg.

Nododd un o bob deg ymatebydd (10%) na ellid ffurfio nac addasu'r cynigion er mwyn cael effeithiau positif ar y Gymraeg.

Roedd 17% o'r ymatebion yn cynnwys sylwadau am ddefnyddio gohebiaeth neu filiau dwyieithog ar gyfer y dreth gyngor. Awgrymodd 9% mai dim ond yn newis iaith y derbynnydd y dylid anfon unrhyw ohebiaeth gan awdurdodau lleol, a hynny er mwyn lleihau gwastraff a chostau. Nododd yr ymatebion sy'n weddill (8%) y dylai Llywodraeth Cymru barhau i gydymffurfio â [Safonau'r Gymraeg](#).

Roedd themâu eraill, llai cyffredin, mewn ymateb i Gwestiwn 10 a Chwestiwn 11 yn cynnwys y canlynol:

- yr effeithiau posibl ar siaradwyr Cymraeg mewn cymunedau gwledig o ganlyniad i newidiadau'r bil
- sylwadau cyffrediol am effaith ail gartrefi mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith

- sicrhau bod y dreth gyngor yn fwy fforddiadwy i bobl ifanc leol
- cymhellion i siaradwyr Cymraeg.

Cwestiwn 12: Unrhyw Sylwadau Pellach

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw bwyntiau cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â hwy'n benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w cofnodi.

Cafwyd 756 o ymatebion ysgrifenedig (45% o'r cyfanswm).

Yng Nghwestiwn 12, gofynnwyd i ymatebwyr i'r ymgynghoriad nodi unrhyw faterion cysylltiedig na chawsant eu trin yn benodol yn eu hymatebion i Gwestiynau 1 i 11. O ganlyniad, roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn cynnwys amrywiaeth eang o themâu gwahanol, y ceir crynodeb o lawer ohonynt yn y ddogfen hon.

Roedd 252 o ymatebion (28%) i'r cwestiwn hwn yn cynnwys beirniadaethau cyffredinol o'r newidiadau arfaethedig i'r dreth gyngor, megis:

- nid dyma'r adeg gywir i ddiwygio'r dreth gyngor oherwydd yr argyfwng costau byw
- gallai'r diwygiadau gael effaith negyddol ar y rhai hynny sydd â llawer o asedau ond nad oes ganddynt lawer o arian parod, yn enwedig yr henoed neu aelwydydd ag unigolion sydd wedi ymddeol
- safbwyntiau cyffredinol am aelwydydd mewn cymunedau gwledig
- pryderon am gostau cyffredinol diwygio neu broses debyg
- pryderon y byddai'r cynigion yn codi trethi
- sylwadau cyffredinol yn gofyn i Lywodraeth Cymru ailystyried y cynigion.

Roedd 14% o'r ymatebion yn cynnwys awgrymiadau ar gyfer math amgen o drethiant lleol. Y tri awgrym a nodwyd amlaf oedd trethi yn seiliedig ar incwm neu'r 'gallu i dalu', nifer y deiliaid, neu dreth cyfradd safonol i bob aelwyd.

Mynegodd 16% o ymatebion bryderon ehangach am y system treth gyngor bresennol megis cost gyffredinol y dreth gyngor (weithiau mewn perthynas â chynnydd blynyddol), anfodlonrwydd ag amrywiol wasanaethau neu seilwaith lleol, y defnydd cymharol o wasanaethau lleol gan rai aelwydydd penodol, ac amrywiadau o ran lefelau'r dreth gyngor a bennir yn lleol.

Roedd sylwadau eraill (9%) yn canolbwyntio ar ddisgowntiau ar gyfer mathau penodol o eiddo neu aelwydydd gan gynnwys y disgownt i breswylwyr sengl (gyda'r rhan fwyaf yn gofyn i'w gadw neu ei gynyddu) a disgowntiau i fyfyrwyr, eiddo gwag neu aelwydydd anabl. Awgrymodd rhai ymatebion y dylid cyflwyno disgowntiau treth gyngor i gartrefi gwyrddach.

Roedd themâu eraill, llai cyffredin, yn cynnwys:

- sylwadau cyffredinol am ail gartrefi;

- safbwyntiau neu sylwadau gweithdrefnol am ddyledion treth gyngor;
- p'un ai'r perchennog yn hytrach na'r deiliad ddylai dalu'r rhwymedigaeth dreth gyngor;
- yr angen am ryddhad trosiannol;
- safbwyntiau ar y cyfraniad a wneir gan y rhai hynny sy'n cael help tuag at dalu eu treth gyngor;
- sylwadau cyffredinol o blaid diwygio.

Ymateb y Llywodraeth

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i bawb sydd wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn ac yn yr ymgynghoriad [Cam 1 blaenorol](#). Gan mai dogfen gryno yw hon, nid yw'r holl faterion a amlinellwyd yn yr ymatebion wedi cael eu hadlewyrchu, ond mae pob ymateb wedi cael ei ystyried yn ofalus.

Y Camau Nesaf

Cyflwynodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet ddatganiad yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cyflawni ei hymrwymiad i dreth gyngor decach i Gymru, fel y'i nodir yn y Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithio.

Atodiad A – Rhestr o'r Ymatebwyr i'r Ymgynghoriad

Cynghrair Henoed Cymru	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Fforwm Rhieni a Gofalwyr Pobl ag Anableddau Dysgu Cymru Gyfan	Cyngor Dinas Casnewydd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent	Y Gymdeithas Cyfryngau Newyddion
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru
Cyngor Caerdydd	Swyddfa Carolyn Thomas AS
Gofal a Thrwsio Cymru	Cyngor Sir Powys
Cyngor Sir Caerfyrddin	Resolution Foundation
Centre for Cities	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (Y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu)
Cyngor Sir Ceredigion	Y Grŵp Treth a Lles, Ysgol Fusnes Bangor, Prifysgol Bangor
Plaid Werdd Ceredigion	Cynghrair y Trethdalwyr
Cyngor ar Bopeth Cymru	Y Sefydliad Ardrethu a Phrisio Refeniw (IRRV)
Y Cynghorydd Dr Louise Brown	Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	UNSAIN Cymru
Y Gymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad (CLA CYMRU)	Cyngor Bro Morgannwg
Cyngor Gwynedd	Tribiwnlys Prasio Cymru
Cyngor Sir Ynys Môn	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)
Cyngor Sir Ddinbych	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam
Cyngor Sir y Fflint	Unigolyn Preifat x 565
MoneySavingExpert	Dienw x 1,072
Cyngor Sir Fynwy	
Cymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid Preswyl	